Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Barker's Lane Wraparound Care Club**

**Canolfan Brenda Price**
**Barkers Lane Community School**
**Barkers Lane**
**Wrexham**
**LL13 9UN**



## Dyddiad yr arolygiad wedi'i gwblhau

18/11/2019

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gellir gweld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gellwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk. Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Mae'r rhain yn wasanaethau sy'n ymrwymedig i wella'n barhaus ac mae ganddynt lawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hyrwyddo eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Mae'r rhain yn wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella.<br><br>Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Mae'r rhain yn wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na<br><br>chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio |

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Gofal Cofleidiol Lôn Barcas wedi ei gofrestru i ddarparu gofal ar gyfer hyd at 48 o blant hyd at 12 oed. Yr unigolion cyfrifol yw Nicola Gargan a Claire Brand, a Claire Brand yw'r person â chyfrifoldeb hefyd. Mae ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 7.45am ac 8.15am (clwb bore), rhwng 11.25am a 14.55 (meithrinfa), a rhwng 15.00 a 17.30 (Clwb Ar Ôl Ysgol) am 47 wythnos y flwyddyn ac eithrio Gwyliau Banc. Saesneg yw'r brif iaith weithredol. Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

| Theme | Rating |
|---|---|
| **Lles** | **Rhagorol** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

## Crynodeb o'n canfyddiadau

**1. Asesiad cyffredinol**

Mae'r plant yn hapus, wedi setlo ac yn ymddiddori yn eu gweithgareddau chwarae. Mae'r plant yn mynegi eu hunain yn hyderus ac mae'r staff yn gwrando ar eu barn, eu syniadau a'u meddyliau. Mae hyn yn eu helpu i wneud dewisiadau annibynnol. Mae'r staff yn brofiadol ac yn ymateb i anghenion unigol y plant ac yn darparu amrywiaeth dda o weithgareddau dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r plant yn cael budd cadarnhaol o amrywiaeth o deganau a chyfarpar. Mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn gyfforddus ac yn lân. Mae trefniadau arwain a rheoli'r gwasanaeth yn dda.

**2. Gwelliannau**

Dyma oedd yr arolygiad cyntaf ers i'r gwasanaeth ailgofrestru gydag AGC fel Sefydliad Corfforedig Elusennol. Mae cysylltiadau agos wedi ei ffurfio gyda Ysgol Gynradd Lôn Barcas. Mae gan yr unigolion cyfrifol weledigaeth a rennir a chydberthynas waith effeithiol iawn sy'n galluogi gwelliannau parhaol i gael eu gwneud yn gadarnhaol er budd y gwasanaeth.

Oherwydd ymdrechion y staff, y rhieni, y plant a'r gymuned ehangach maent wedi codi arian, ac o ganlyniad gwnaed gwelliannau i'r safle ac mae adnoddau newydd wedi cael eu prynu.

## 3. Gofynion ac argymhellion

Mae'r gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol. Gwnaethom ddau argymhelliad mewn perthynas â chyfarpar / adnoddau ar gyfer y plant.

## 1. Lles Rhagorol

### Crynodeb

Mae gan y plant lais cryf, gwrandewir arnynt ac maent yn cyfathrebu'n dda â'r staff a'u ffrindiau, gan fynegi eu hanghenion, a gwneud dewisiadau'n hyderus. Mae'r plant yn hapus yn y gwasanaeth, yn teimlo'n ddiogel ac yn meithrin ymdeimlad o berthyn. Maent yn weithgar ac yn cymryd diddordeb yn yr hyn y maent yn ei wneud, a chânt gyfleoedd da i ddatblygu eu sgiliau a'u hannibyniaeth drwy arferion sefydledig. Maent yn mwynhau eu profiadau dysgu a chwarae rhydd dan do ac yn yr awyr agored, ac maent yn helpu i gynllunio gweithgareddau strwythuredig yn rheolaidd.

### Ein canfyddiadau

Roedd y plant yn gallu mynegi eu hunain ac roeddent yn gallu dewis pa weithgareddau roeddent am ymuno â nhw am eu bod yn gallu cael gafael ar gyfarpar ac adnoddau yn hawdd. Er enghraifft, gwnaeth grŵp bach o blant, a oedd yn ymuno â'r sesiwn cofleidiol ar ôl meithrinfa'r ysgol, sgwrsio â'i gilydd wrth iddynt archwilio'r opsiynau chwarae a oedd ar gael, a gwnaethant ddewis yn frwdfrydig eu bod am chwarae yn y gornel gartref, gan wisgo i fyny er mwyn datblygu chwarae rôl. Gweithiodd eraill fel tîm yn yr ardal drafnidiaeth ac adeiladu, gan wisgo fel Bob y bildar, diffoddwyr tân a gyrwyr trenau. Roedd y plant yn mynegi eu hunain mewn ffordd hyderus ac yn gwybod bod y staff yn gwrando ar yr hyn roedd ganddynt i'w ddweud ac yn parchu hynny. Er enghraifft, pan ddywedodd plentyn nad oedd yn llwglyd ac nad oedd am gael byrbryd yn y prynhawn gan ei fod hefyd yn brysur yn chwarae, rhoddwyd sicrwydd i'r plentyn y gallai fwyta'n hwyrach yn ei amser ei hun.

Roedd y plant wedi setlo'n dda ac roedd ganddynt gydberthnasau da â'i gilydd a'r staff. Roedd y plant yn teimlo'n ddiogel ac yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi mewn amgylchedd a threfn ddyddiol sy'n gyfarwydd iddynt. Roedd hyn yn eu galluogi i chwarae a dysgu, yn hybu eu llesiant ac yn eu helpu i wneud ffrindiau. Roedd y plant a oedd yn newydd i'r gwasanaeth a'r sawl yr oedd angen mwy o gefnogaeth arnynt yn derbyn cysur a sicrwydd priodol.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd, y staff ac oedolion eraill o'u cwmpas megis ymwelwyr â'r gwasanaeth. Roedd y plant i gyd yn ymddwyn yn dda, yn dilyn rheolau'r gwasanaeth ac yn dangos parch at ei gilydd. Clywsom lawer o sgwrsio a chwerthin wrth i'r plant chwarae. Roedd amseroedd byrbryd a phrydau bwyd yn gymdeithasol, roedd y plant yn eistedd mewn grŵp ac yn siarad am eu hoff fwydydd a'r hyn roeddent am ei chwarae nesaf. Roeddent yn rhannu adnoddau a chyfarpar yn dda ac yn helpu i'w rhoi i gadw gyda'i gilydd.

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu ac roeddent yn gallu dewis chwarae dan do neu yn yr awyr agored, gan gynnwys chwarae rhydd, chwarae blêr a gweithgareddau grŵp. Fodd bynnag, ni allai'r plant ddefnyddio'r gegin fwd a adeiladwyd yn ddiweddar yn yr awyr

agored gan ei bod yn amhriodol o uchel. Dywedodd y staff wrthym y byddai'r gegin yn cael ei haddasu. Roedd un grŵp o blant yn llawn cyffro wrth chwarae gyda'r tywod. Gwelwyd eu bod yn defnyddio eu dychymyg, gan ddod o hyd i ddatrysiadau gyda'i gilydd gan greu cestyll tywod, amrywiaeth o siapiau o fwyd chwarae, ac roeddent yn helpu ei gilydd rywfaint. Roedd y plant yn gallu canolbwyntio am gyfnod addas o amser ar gyfer eu hoedran a'u cam datblygu, er enghraifft, arbrofi sut i gludo eitemau i'r gornel gartref er mwyn estyn eu chwarae. Aeth plentyn a oedd â diddordeb mewn gwneud arolygon o gwmpas y gwasanaeth yn ystod y gweithgareddau i ofyn i'r plant beth oedd eu hoff liw, gwnaeth pawb gydweithredu wrth i'r plentyn gofnodi'r wybodaeth, a rhoi adborth ar y canfyddiadau i'r staff. Roedd arolygon blaenorol yn cynnwys hoff weithgareddau a dewisiadau o ran byrbrydau. Hefyd, gwelwyd lawer o wenu a chwerthin wrth i grŵp o blant chwarae gyda'i gilydd yn yr awyr agored, gan gasglu dail a oedd wedi disgyn i chwarae gemau dychmygus, cydbwyso ar rwystrau pren, chwilio am bryfed yn y planwyr ac arbrofi â dŵr gan ddefnyddio'r pibelli draen. Disgrifiodd rhai o'r plant eu hoff weithgaredd, sef mynd i'r gweithgareddau arbennig sydd ganddynt, er enghraifft, pan fydd sefydliadau megis grwpiau chwaraeon, amgueddfeydd yn ymweld â'r gwasanaeth neu pan gânt gyfle i gyfarfod ag anifeiliaid.

Gallai'r plant fod yn hunanddibynnol gan eu bod yn gallu cael gafael ar yr adnoddau a'r cyfleusterau yr oedd eu hangen arnynt dan do ac yn yr awyr agored. Roedd eitemau'n cael eu storio ar uchder priodol fel y gallai pob plentyn eu cyrraedd. Gwelsom fod y plant yn cael cyfleoedd da i ddod yn annibynnol, er enghraifft, helpu i gadw teganau, defnyddio'r toiled a golchi eu dwylo, a gwneud eu wrapiau eu hunain yn ystod amser byrbryd ac arllwys eu diodydd eu hunain.

## 2. Gofal a Datblygiad Da

### Crynodeb

Mae'r staff yn brofiadol ac mae ganddynt y cymwysterau addas. Mae'r staff yn fodelau rôl da ac yn deall sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae ganddynt lawer o wybodaeth am anghenion unigol y plant ac maent yn eu cefnogi'n dda. Caiff ystod o weithgareddau eu trefnu i helpu'r plant i ddysgu a meithrin sgiliau'n effeithiol. Mae'r staff yn gyson ac yn broffesiynol wrth ryngweithio, yn defnyddio canmoliaeth i hybu ymddygiad cadarnhaol ac yn gosod ffiniau realistig sy'n helpu'r plant i wybod beth sy'n ddisgwyliedig ohonynt.

### Ein canfyddiadau

Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel am eu bod yn dilyn polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth. Roedd ganddynt gymwysterau cymorth cyntaf addas i'w galluogi i ymateb i ddamweiniau bach. Roedd y staff yn gwybod beth i'w wneud os oedd ganddynt bryderon ynghylch plentyn ac roedd cofnodion damweiniau a digwyddiadau yn cael eu cwblhau ac yn cael eu rhannu â'r rhieni a'u llofnodi. Roedd ymarferion tân yn cael eu cynnal i gadw'r plant yn ddiogel.

Mae'r staff yn dilyn arfer da o ran rheoli heintiau. Roedd y byrddau'n cael eu sychu cyn amser bwyd. Roedd y staff yn annog y plant i olchi eu dwylo cyn bwyta ac ar ôl mynd i'r toiled. Mae pob plentyn wedi coginio cinio ysgol ac roedd y staff yn rhoi byrbrydau iachus i'r plant. Er enghraifft, roedd y plant yn dewis o amrywiaeth o eitemau megis caws, ham, cyw iâr, letys, tomatos, puprynnau a chiwcymbr i wneud eu wrapiau eu hunain. Roedd dewis o ddŵr neu laeth i'w yfed. Dangosodd y fwydlen tair wythnos fod bwyd maethlon yn cael ei ddarparu'n gyson. Hefyd, mae'r staff yn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd rheolaidd i ddatblygu eu sgiliau corfforol yn dda, bod yn egnïol a chael awyr iach drwy ddefnyddio'r ardal awyr agored. Roedd hyn yn hybu iechyd a llesiant cyffredinol y plant yn gadarnhaol.

Roedd y staff yn defnyddio dulliau cadarnhaol i reoli ymddygiad y plant. Roeddent yn goruchwylio'r plant ym mhob sefyllfa ac yn rheoli rhyngweithio'r plant yn amserol drwy siarad â nhw mewn ffordd garedig a gofalgar a defnyddio canmoliaeth gadarnhaol i'w cymell. Er enghraifft, yn ystod chwarae awyr agored roedd grŵp o blant yn cael ei oruchwylio'n dda ac roedd y plant yn cael eu cadw'n ddiogel wrth iddynt ddringo i ben strwythur chwarae gosodedig ar ôl i'r staff esbonio pwysigrwydd gwrando ar gyfarwyddiadau a chymryd tro i gyrraedd y brig, neu wrth ddefnyddio'r sleid, mewn ffordd a oedd yn addas i oedran y plant. Roedd pob plentyn yn gallu cyflawni pethau drosto ei hun ac ymdopi'n dda â'r profiadau heriol a oedd ar gael iddo.

## 3. Yr amgylchedd **Da**

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn darparu amgylchedd croesawgar, glân a diogel o dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r amgylchedd yn addas i blant a darperir amodau chwarae da iddynt. Mae ansawdd yr adnoddau yn dda. Mae'r adnoddau a'r cyfarpar yn addas ac mae'r staff yn gwneud defnydd da ohonynt. Mae'r mannau chwarae'n arloesol, yn cynnwys digon o adnoddau ac yn amlbwrpas er mwyn diwallu anghenion y plant. Mae'r safle wedi cael ei adnewyddu'n rhannol yn ddiweddar ac mae wedi'i addurno mewn ffordd sy'n darparu amgylchedd ysgogol a magwrus i'r plant.

### Ein canfyddiadau

Roedd gan yr arweinwyr systemau ar waith a oedd yn sicrhau bod yr amgylchedd yn parhau i fod yn ddiogel i'r plant ei ddefnyddio. Roedd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran iechyd a diogelwch. Roedd asesiadau risg ar waith ac roeddent yn ddigon manwl. Roedd yr yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn gyfredol. Mae'r arweinwyr wedi cwblhau'r gwiriadau iechyd a diogelwch angenrheidiol. Roedd drws y brif fynedfa wedi ei gloi ac roedd cofnod yn cael ei gadw o'r holl ymwelwyr. Roedd y drysau tân yn rhydd o unrhyw rwystrau. Roedd yr ardaloedd awyr agored yn ddiogel. Roedd y plant yn cael eu goruchwylio'n dda wrth iddynt chwarae gyda'r cyfarpar awyr agored. Roedd yr ardal awyr agored yn hyrwyddo annibyniaeth ac yn galluogi'r plant i fod yn gorfforol egnïol.

Roedd y teganau a'r cyfarpar yn y gwasanaeth yn ysgogol i'r plant ac roedd yr adnoddau wedi'u gosod o fewn gafael iddynt. Roedd y brif ystafell wedi'i rhannu yn ardaloedd dysgu a oedd yn cynnwys amrywiaeth addas o eitemau chwarae yr oedd y plant yn eu mwynhau ac yn ymddiddori ynddynt. Er enghraifft, roedd modd troi'r gornel gartref a'r ardal synhwyraidd yn ardal greadigol ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau thema. Gwnaeth rhai o'r plant fynegi angen am fwrdd gwyn rhyngweithiol fel sydd ganddynt yn yr ysgol. Roedd yr arweinwyr yn gobeithio gweithredu ar hyn, yn amodol ar gyllid.

Roedd cadeiriau a byrddau isel yn galluogi'r plant a'r staff i eistedd gyda'i gilydd amser bwyd. Roedd ardal ar gyfer straeon ac amser tawel. Fodd bynnag, dangosodd plentyn ifanc arwyddion o flinder ac roedd am gysgu, ond nid oedd hyn yn bosibl. Argymhellwyd bod yr arweinwyr yn darparu man addas a chyfarpar i'r plant gysgu gyda'u dillad gwely eu hunain y gellid eu golchi'n rheolaidd. Roedd gan y plant hŷn un neu ddwy gadair a deunyddiau cysurus lle roeddent yn gallu ymlacio neu siarad â'u ffrindiau. Roedd byrddau mwy o faint ar uchderau amrywiol yn galluogi'r plant i wasgaru eitemau chwarae a gemau, neu orffen gwaith crefft. Roedd yr arweinwyr yn darparu adnoddau glân a gaiff eu cynnal a'u cadw'n dda. Roedd hyn yn rhoi digon o ddewis i'r plant o ran pa eitemau roeddent am chwarae â nhw. Roedd yr arweinwyr wedi darparu man penodol i'r plant gadw eu heitemau personol, eu cotiau a'u bagiau.

Mae'r arweinwyr wedi creu ethos cadarnhaol ac wedi sefydlu tîm cadarn o staff fel bod y gwasanaeth yn rhedeg yn effeithiol. Mae'r broses hunanwerthuso yn flaenoriaeth gyda'r arweinwyr yn gwella'r gwasanaeth ac yn diweddaru anghenion hyfforddi'r staff yn barhaus. Mae partneriaethau yn gryfder penodol gydag arweinwyr yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r rhieni, yr ysgol y mae'r gwasanaeth yn ei bwydo a'r gymuned leol.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth **Da**

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr wedi creu ethos cadarnhaol ac wedi sefydlu tîm cadarn o staff fel bod y gwasanaeth yn rhedeg yn effeithiol. Mae'r broses hunanwerthuso yn flaenoriaeth gyda'r arweinwyr yn gwella'r gwasanaeth ac yn diweddaru anghenion hyfforddi'r staff yn barhaus. Mae partneriaethau yn gryfder penodol gydag arweinwyr yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r rhieni, yr ysgol y mae'r gwasanaeth yn ei bwydo a'r gymuned leol.

### Ein canfyddiadau

Roedd yr arweinwyr yn brofiadol ac yn gweithio'n effeithiol i gyflwyno gweledigaeth a rennir er mwyn sicrhau canlyniadau da i'r plant drwy ddatblygu sgiliau ac arbenigedd y staff. Roeddent yn annog y staff a'r plant i gyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau. Roedd nodiadau cyfarfodydd yn dangos bod cyfarfodydd rheoli rheolaidd yn canolbwyntio ar sut roeddent yn bwriadu gwella ansawdd y gwasanaeth. Roedd hyn yn creu ethos cadarnhaol lle roedd pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Roedd pob un o bolisïau'r gwasanaeth wedi cael eu hadolygu, roedd yr arweinwyr yn arsylwi'r staff yn anffurfiol yn rheolaidd, a'r staff partner hefyd ar gyfer mentora a monitro. Roedd hyn yn sicrhau eu bod yn rhannu eu harbenigedd ac yn cydweithio i wella eu hymarfer proffesiynol a datblygu eu hyder yn eu rolau. Roedd polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth ar gael i'r rhieni ac roedd y datganiad o ddiben yn adlewyrchu'r gwasanaeth yn dda, a oedd yn galluogi'r rhieni i wneud dewis gwybodus am y gofal a ddarperir.

Roedd yr arweinwyr yn fyfyriol ac roeddent yn gwerthuso'r gwasanaeth yn effeithiol. Roedd barn y rhieni a'r plant wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol diwethaf ar ansawdd y gofal, cyn dod yn Sefydliad Corfforedig Elusennol, ac mae'r arweinwyr wedi nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella ers hynny, ar ôl ailgofrestru yn gynharach eleni. Er enghraifft, roedd yr arweinwyr wedi creu ardal awyr agored ychwanegol yn ddiweddar i hyrwyddo bywyd gwyllt ac wedi ychwanegu mwy o ddeunyddiau cynaliadwy yn yr awyr agored a dan do. Yn y gwasanaeth roedd cegin newydd â'r holl gyfarpar angenrheidiol a swyddfa agored wedi cael eu gosod, a oedd yn golygu y gellid goruchwylio'r plant o bob ardal. Roedd gan y plant hŷn ardal chwarae a gweithgareddau hamdden ddynodedig ar gais. Roedd sawl aelod o'r staff yn y broses o gwblhau eu cymhwyster gweithiwr chwarae, ac o ganlyniad roedd cynlluniau ar waith i ddarparu gweithgareddau mwy mentrus, chwarae â darnau rhydd a chwarae blêr.

Gwnaeth yr arweinwyr ystyried adborth adeiladol ac aethant ati ar unwaith i gynllunio er mwyn mynd i'r afael â materion bach a godwyd yn ystod yr arolygiad.

Gwnaethom edrych ar amrywiaeth o gofnodion a gwelsom fod y rhain yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol. Roedd yr arweinwyr yn cefnogi'r staff yn dda drwy sesiynau goruchwylio ac archwiliadau blynyddol ac yn sicrhau bod hyfforddiant

rheolaidd ar gael i'r staff. Roedd ffeiliau'r staff wedi'u cwblhau a oedd yn dangos bod prosesau recriwtio diogel ar waith, gan gynnwys proses sefydlu, ac roedd gan bob aelod o'r staff dystysgrif cofnod troseddol fanwl gyfredol a oedd yn dangos ei addasrwydd. Roedd cymarebau'r staff yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol bob amser.

Gwelsom fod lefel dda o ymddiriedaeth wedi cael ei meithrin ac roedd y rhieni a'r gofalwyr y gwnaethom siarad â nhw yn canmol y gwasanaeth. Roedd yr arweinwyr yn ymgysylltu â'r rhieni'n rheolaidd drwy sgyrsiau anffurfiol, cylchlythyrau, y bwrdd gwybodaeth a thudalen y gwasanaeth ar wefan yr ysgol.

Roedd gan yr arweinwyr gysylltiadau cryf â'r gymuned leol a oedd yn cyfoethogi gwaith dysgu'r plant a'u profiadau o'u hardal leol. Er enghraifft, roedd y plant yn mynd am dro ar lwybrau cerdded, ac roedd yr ysgol Goedwig ar gael iddynt, cyfarpar chwarae gosodedig a chae ysgol mawr ar gyfer gweithgareddau awyr agored.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac argymhellion yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dd/G

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Mae'r gegin fwd yn rhy uchel ac mae angen ei haddasu yn unol â thaldra'r plant.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad ôl-gofrestru dirybudd llawn.

Gwnaeth un arolygydd ymweld â'r gwasanaeth ar ddydd Mawrth 12 Tachwedd 2019 rhwng 12.15 a 15.15 er mwyn arolygu'r gofal cofleidiol, ac ar ddydd Llun 18 Tachwedd 2019 rhwng 15.20 a 18.00 er mwyn arolygu'r ddarpariaeth ar ôl ysgol.

Gwnaethom y canlynol:

- arsylwi ar arfer a chwblhau sesiynau arsylwi er mwyn casglu tystiolaeth o ymgysylltiad y plant a'r gofal a ddarperir gan y staff;
- archwilio'r amgylchedd, y teganau a'r cyfarpar;
- siarad â’r plant, y staff, a phedwar rhiant/gofalwr, un nain/taid ac un hen nain/taid
- siarad ag un o'r unigolion cyfrifol, y rheolwr / y person â chyfrifoldeb am y gwasanaeth;
- edrych ar amrywiaeth eang o gofnodion
- rhoi adborth i un o'r unigolion cyfrifol / y person â chyfrifoldeb ar ddiwrnod olaf yr arolygiad.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal Dydd Llawn** |
| **Unigolyn Cyfrifol** | **Nicola Gargan**<br>**Claire Brand** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Claire Brand** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **48** |
| **Ystod oedran y plant** | **3–11 oed** |
| **Oriau agor** | **O ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 7.45 ac 8.15 (clwb bore), rhwng 11.25 a 14.55 (meithrinfa), a rhwng 15.00 a 17.30 (Clwb Ar Ôl Ysgol) am 47 wythnos y flwyddyn ac eithrio Gwyliau Banc.** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Saesneg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **Dyma'r arolygiad cyntaf ers i'r gwasanaeth ailgofrestru** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **12 Tachwedd rhwng 12.15 a 15.15 a 18 Tachwedd rhwng 15.30 a 18.00** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu sy'n bwriadu gwneud hynny. Argymhellwn y dylai'r darparwr gwasanaeth ystyried canllawiau strategol olynol 'Mwy na Geiriau' Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn gofal cymdeithasol'** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 31/07/2020